CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

YSGOL GYMUNED BRYNGWRAN
BRYNGWRAN
YNYS MÔN
LL65 3PP
'Ymdrech a lwydda'
☎01407 720 400
✉ YSG2135@ynysmon.gov.uk
✉ pennaeth.bryngwran@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / Head Teacher
Dwynwen Llwyd Powell

27.3.2015

Annwyl Rieni,
Daeth tymor prysur arall i ben! Diolch am eich cefnogaeth drwy'r tymor, gwerthfawrogaf eich cymorth a'ch cydweithrediad! Mawr obeithio y cewch seibiant braf a Phasg hapus.

Pan ddychwelwn i'r ysgol ar ôl y gwyliau byddwn yn dilyn trefn newydd. Bydd hyn yn digwydd wrth gofrestru ac wrth dalu am holl weithgareddau'r ysgol, gan gynnwys talu arian cinio. Mae amlenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol a gallwch eu postio mewn blwch postio pwrpasol yng nghyntedd yr ysgol.

Disgwylir i pawb gyrraedd yr ysgol yn brydlon - **8.10-8.30 o'r gloch i'r Clwb Brecwast** ac erbyn **8.50** o'r gloch i pawb arall. Bydd cofrestr presenoldeb yn cael ei gwblhau am **9 o'r gloch** yn brydlon. Mae hwyr-ddyfodiaid yn cael effaith andwyol ar drefn a chanran presenoldeb yr ysgol. I'r perwyl hwn byddwn yn gofyn i bob rhiant sy'n cyrraedd yr ysgol ar ôl 9.00am i arwyddo cofrestr yn egluro pam eu bod yn hwyr. Mae prydlondeb yn bwysig hefyd ar ddiwedd diwrnod ysgol, 3.15pm i'r Cyfnod Sylfaen (4.00pm i'r Clybiau) a 3.30pm i CA2 (4.30pm i'r Clybiau).

Disgwylir taliadau cinio ar Ddydd Llun neu ar Ddydd Gwener yn ddi-ffael am yr wythnos ac ni fyddwn yn caniatau dyledion. Derbyniwn hefyd daliad am y tymor, hwn i'w dalu ar ddechrau pob tymor. Bydd unrhyw gredyd yn cael ei gario drosodd. Bydd arian clybiau i'w dalu ar y noson. Cyfyd hyn oherwydd dyledion niferus ar ddiwedd pob tymor.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad,
Yn gywir,

Dwynwen Llwyd Powell